

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Dachwedd 2020

## Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 08fed o Hydref 2020
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
  - a. Is Bwyllgor Cyllid 28-10-20
7. Archwilwyr allannol
  - a. Ymateb 1
  - b. Ymateb 2
8. Materion y Clerc
  - a. Diffib                      Cytuno ar union leoliadau
  - b. Lon Llanerch              Ymateb adran tramwy
  - c. Ymweliad i'r Ganolfan newydd
9. Materion y Cynghorwyr
  - a. Cyng L A James              Delwedd/Brandio
    - Asesiadau Risg
  - b. Cyng M Baines                Stad Redrow (os oes diweddariad)
    - Ffens Coed y Maes
  - c. Cyng M Lynch                 Gwerthiant Faenol Arms (os oes diweddariad)
  - d. Cyng J Griffiths                Llwybr Glasinfryn i Waen Wen

# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 08fed o Hydref 2020

1. Presennol: Cyngorwyr  
D. Jones-Morris; L A James; M. Lynch; E. Jones; M. Baines; D. W. Jones a J Lewis
2. Ymddiheuriadau:  
Cyngorwyr B. Jones J. Griffiths; H Griffiths; T A Williams; J. Pierce;
3. Ethol Cadeirydd  
Cafodd y Cyng D W Jones ei ethol i'r gadair ag offrymodd weddi cyn croesawu pawb oedd bresennol a dymuno gwellhad buan i'r Cyng J Pierce oedd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar
4. Datgan buddiant  
Esbonwyd tae unrhyw un angen datgan buddiant byddai rhaid gwneud hynny ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi – Ni fu datganiad
5. Derbyn cofnodion 10fed o Fedi 2020 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir  
Cyng E Jones yn cynnig a Cyng D Jones-Morris yn eilio
6. Materion yn codi o'r cofnodion
  - a. Esboniodd Cyng E Jones fod Arwyddion llwybr i Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Glan Menai yn dal i achosi pryderon i gerddwyr ond y mater wedi cael ei gyfeirio i'r adran dramwyo
  - b. Cysgodfan Parc y Mount yn dal heb ei datrys oherwydd nad ydi wedi bod yn bosib cael ymweliad safle a chytuno ar leoliad fydd yn dderbyniol gan y person oedd yn gwrthwynebu
  - c. Stad Redrow adroddwyd gan Cyng M Baines fod y ffyrdd yn mynd i gael gwaith wedi ei wneud arnynt ymhen wythnos. Trigolion yn dal yn anhapus/anfodlon hefo'r gwerth am arian gan y Cwmni Trinity. Adrodd yn ol eto ymhen mis

## 7. Materion ariannol

Gan mae neithiwr 07-10-20 fu'r cyfarfod o'r Is B Cyllid adroddiad ar lafar gafwyd ynghyd a rhannu y fantolen ariannol hefo gweddill y Cyngorwyr. Cadarnhawyd derbyn ail rah Praesept 20-21 Heb gael cyfle i ail ymweld a'n Cofrestr asesiad risg

Cyng L A James am edrych dwryddo a dod yn ol gydag argymhellion i'r Cyngor nesaf.

Gwahoddiad wedi ei dderbyn i ymweld a'r dablygiadau yn y Ganolfan Newydd/Ysgol y Faenol Prosiectau

- Lon Glasinfryn – Dim ymateb o Gamlins felly dim agosach i ddarganfod perchnogaeth/cyfrifoldeb pwy ydi cynnal a cadw'r lon
- Cae Chwarae Caerhun – 2 ddyfnbris wedi ei dderbyn – Cyngor Llawn i drafod
- Caeau Chwarae ychwanegol – Holi Gwynedd am eu adroddiadau archwyllo
- Diffibs ychwanegol Argymell ein bod yn prynu 3 peiriant newydd eleni Cyngor Llawn i gytuno ar leoliadau
- Bocsus Blodau - Wedi derbyn pris gan Mr G Hughes Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn gosod y cytundeb hefo Mr Hughes

### Cais am nawdd

Cais wedi ei dderbyn gan Cylch Meithrin Penrhos ynghyd a mantolen Argymell nawdd o £300

Archwilwyr allannol – Heb dderbyn ymateb

### **Ymatebion i'r materion ariannol**

- a. Clerc i gysylltu eto a Gamlins
- b. Cae Chwarae Gwahaniaeth mawr yn y 2 ddyfnbris Clerc i drafod hefo'r Cwmni lleol
- c. Clerc i holi am archwyllo Cyngor Gwynedd ag os nad oes holi os fyddai'n briodol i ni gael archwyllo annibynnol
- d. Cadarnhau i'r Clerc symud ymlaen i archebu 3 Peiriant
- e. Cadarnhau rhoi'r cytundeb bocsus blodau i Mr G Hughes
- f. Cadarnhau i roi nawdd o £300 i Cylch Meithrin Penrhos

8. Materion y Clerc Cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni  
'Roedd y Clerc wedi anfon ymlaen lythyr o gefnogaeth at Arweinydd Cyngor Gwynedd
9. Materion y Cyngorwyr  
➤ Cyng D W Jones Llwybra Ysgol Treborth  
Adroddwyd fod cerddwyr lleol yn cael eu bygwth gan berchennog Hen Ysgol Treborth.  
'Roedd Cyng M Baines fel Cyngorwyrdd Sir wedi derbyn cwynion hefyd ag wedi cysylltu a'r adran tramwyo Dewi W Owen.  
Mae yna broses gyhoeddus i'w dilyn ag mae yn amser erbyn hyn i'r broses honno gychwyn gan fod rhywun yn debygol iawn o gael eu anafu os bydd y sefyllfa yma yn parhau  
Cyng M Baines am barhau i gadw trafodaetha i fynd hefo'r Adran Tramwy  
➤ Cyng M Baines Cais newydd Deintyddfa yn Parc Menai  
Er gwybodaeth adroddwyd i Gyngor Gwynedd wrthod caniatáu cais cynllunio ar gyfer Deintyddfa ar Parc Menai.  
Byddai cais newydd yn cael ei gyflwyno.  
Gofynnodd am gefnogaeth i'r cais hwnnw  
➤ Cyng M Lynch Gwerthiant Tafarn y Vaynol Arms Pentir ag ymgais trigolion lleol i edrych ar y posibilrwydd ei phrynu  
Adroddwyd fod dau gyfarfod wedi ei gynnal ers ein cyfarfod dwaetha – Un gyda Swyddog Adfywio yr ardal Dafydd Einion Jones yn bresennol i son am esiamplau o'r math yma o brosiectau. Mae'r grwp lleol yn grwp bychan ond brwdfrydig iawn – eu pryder mwyaf yw i rhywun ei brynu a newid ei ddefnydd ond esbonwyd y byddai rhaid i hynny gael sel bendith yr adran cynllunio a byddai cyfle bryd hynny i wrthwynebu y cais. Cytunwyd i gynnal syrfe ar wefan y Cyngor i holi barn yn bellach mysg trigolion lleol am eu syniadau/barn

Daeth y Cyfarfod i ben 8.45